# Cod Ymarfer Gweithwyr Cefnogi

Fel gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio dros fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ym Mhrifysgol Bangor, mae'n bwysig eich bod yn cadw at y Cod hwn. Dylai hyn sicrhau eich statws proffesiynol a

www.bangor.ac.uk/studentservices/disability neu gan y Cydlynydd Cymorth Anfeddygol.

**CYDLYNYDD Y GWASANAETH**

Cydlynydd Cymorth Anfeddygol
Gwasanaeth Anabledd
Llawr Cyntaf
Neuadd Rathbone
Prifysgol Bangor
Bangor
Gwynedd
LL57 2DF

E-bost: supportwork@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 383022

**SWYDDOGAETH GWEITHIWR CEFNOGI**

**Hyfforddiant**

berthnasol. Diben hyn yw sicrhau ansawdd ein gwasanaeth.

**Cyfathrebu**

Bydd pob Gweithiwr Cefnogi yn cael enw defnyddiwr a chyfeiriad e-bost Prifysgol Bangor, a fydd yn rhoi mynediad iddynt at y rhan fwyaf o systemau'r Brifysgol. Dyma fydd y brif ffordd y bydd y Myfyrwyr, y Brifysgol, a'r Gweithwyr Cefnogi yn gohebu â'i gilydd.

Dim ond cyfeiriad e-bost Prifysgol Bangor y Gweithwyr Cefnogi y bydd y myfyrwyr yn ei gael. Mae'n bwysig na ddylid rhannu unrhyw fanylion cyswllt eraill, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn personol.

e-bost y myfyrwyr, ac *efallai* y bydd mentoriaid yn cael rhifau ffôn y myfyrwyr. Os oes modd, dylech ffonio eich myfyriwr yn defnyddio un o

yn atal eich rhif (e.e. drwy ddeialu 141 cyn eu rhif) er mwyn sicrhau na fydd y myfyriwr yn gweld rhif eich ffôn symudol personol. Ni chewch anfon negeseuon testun o'ch ffôn symudol personol gan nad yw'n bosibl atal y rhif ffôn rhag ymddangos. Gall y Gwasanaethau Anabledd anfon negeseuon testun i atgoffa myfyrwyr, a gellir gwneud defnydd cyfyngedig o'r gwasanaeth hwn.

Cyfrifoldeb y Gweithiwr Cefnogi yw gweithio ar strategaethau i symud oddi wrth anfon nodiadau atgoffa dros y ffôn ac mewn negeseuon testun, megis defnyddio calendrau neu osod nodyn atgoffa yn ffôn y myfyriwr ar gyfer y sesiwn ganlynol.  Lle y bo'n bosibl, gall y Gweithwyr Cefnogi roi cefnogaeth i fyfyrwyr gyda strategaethau ar gyfer gwirio a defnyddio negeseuon e-bost, fel bod y myfyriwr yn cadw at reoliadau'r Brifysgol.

Mae swyddfa'r Gwasanaethau Anabledd ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac oherwydd hynny, ni fydd galwadau ffôn na negeseuon e-bost yn cael eu hateb y tu allan i'r oriau hyn.  Ni fyddai disgwyl i Weithwyr Cefnogi ateb negeseuon gan eu myfyrwyr y tu allan i oriau swyddfa arferol a'u diwrnodau gwaith rheolaidd (e.e. dydd Llun i ddydd Mercher).

Os bydd Gweithiwr Cefnogi i ffwrdd o'i waith ac yn methu ag edrych ar ei e-byst am gyfnod hir, dylid gosod neges Allan o'r Swyddfa.  Gall y Gwasanaeth Anabledd ddarparu neges Allan o'r Swyddfa ddwyieithog enghreifftiol.

**Dulliau Gweithio**

Dylech gadw cyfrinachedd llwyr o ran eich swydd broffesiynol bob amser, gan gadw unrhyw wybodaeth rhyngoch chi, y myfyriwr, y Cynghorwr a'r Cydlynydd, oni bai eich bod yn credu y byddai gwneud hynny yn achosi niwed i chi neu i bobl eraill.

**Presenoldeb**

**Adroddiadau Misol Mentoriaid**

Mae'n ofynnol i fentoriaid gyflwyno adroddiad misol i'r Cydlynydd.  Mae templed gwag o'r

**Cefnogi mewn Arholiadau**

Nid cyfrifoldeb y Gwasanaethau Anabledd yw trefnu a thalu am gefnogaeth i fyfyrwyr mewn arholiadau.  Os cewch gais gan fyfyriwr neu gan Ysgol y myfyriwr, cofiwch y bydd angen i chi drafod â Gweinyddwr yr Ysgol er mwyn gwneud trefniadau a chael tâl.

**Gwaith yn ystod cyfnod gwyliau**

Bydd Mentoriaid a Gweithwyr Cefnogi Dysgwyr yn cael nifer penodol o oriau yr wythnos yn ystod y tymor ar gyfer pob myfyriwr  Nid oes disgwyl y bydd yr oriau hyn yn cael eu hymestyn nac y rhoddir cefnogaeth yn ystod y gwyliau, heb gydsyniad y Cydlynydd.

**Ymholiadau/Problemau**

*cyn gynted â phosibl.*